y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 37 DYDD GWENER, MEDI 11, 2009 Pris 40c

HANES YR HAF YN Y NODDFA

Pryd fydd yr Haf yn cychwyn yn eich Eglwys chi? Pan fydd y gweinidog yn pregethu yn llewys ei grys? Pan fydd aelodau yn peidio cwyno ei bod yn oer, neu pan fydd 'na neb yn y gynulleidfa am eu bod i gyd ar eu gwyliau?

Yn Eglwys Noddfa, Caernarfon, Arfon, mae'r Haf yn cychwyn pan fydd y tripiau yn cychwyn a phan fydd Llinos yn dechrau colli cwsg am fod y Cynllun Chwarae rownd y gornel! Dechreuodd yr Haf eleni felly ddechrau Mehefin wrth i griw'r tê bach misol fynd ar drip. Ond dim ond dechrau'r Haf oedd hynny gan i Bererindod ddilyn ddechrau Gorffennaf a diwrnod o hwyl i orffen y tymor cyn dechrau'r Cynllun Chwarae. Felly dyma ychydig o flas i chi o'r Haf yn Noddfa:

Trip Tê Bach

Daw criw hwyliog at ei gilydd yn Noddfa ar Ddydd Iau olaf bob mis i fwynhau tê bach – cyfle i fwyta a sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le dros baned. Dwy waith y flwyddyn trefnir trip i ymweld â man lleol diddorol ac wrth gwrs gael tê bach!

Aeth trip yr Haf eleni i Garth Celyn, Abergwyngregyn – Llys Llywelyn Fawr. Roedd yn brynhawn andros o ddiddorol gyda phawb yn teimlo'n fwy gwybodus yn gadael na phan gyrrhaeddon ni! Cawsom baned a chacen flasus dros ben yng Nghaffi'r Felin yn Abergwyngregyn. Roedd rhai ohonom wedi'n synnu fod cymaint i'w wneud yn Aber ac mae'n werth aros yno yn hytrach na gwibio heibio ar yr A55.

Pererindod

Aethom ar ein Pererindod flynyddol ar Orffennaf 12fed ac eleni cawsom gyd-bererindota gyda'n ffrindiau yn Nhrefor, Arfon. Roedd ein bws 33 sedd yn llawn dop yn gadael 'Dre' am Drefor lle aethom mewn confoi i'n man diddorol cyntaf – Ffynnon Gybi. Y ffaith gyntaf a ddysgom oedd mai ger Chwilog mae Ffynnon Gybi ac nid yng Nghaergybi! Cawsom gerdded drwy'r cae ac wrth ymyl yr nant at y ffynnon a'r hen dŷ a chawsom hoe fach yno i werthfawrogi bod yng nghanol y wlad – er fod rhai o blant y dre yn cwyno am faw gwartheg! Cawsom ychydig o hanes y ffynnon gan Dewi Griffiths oedd â dawn i grynhoi canrifoedd a llond trol o wybodaeth i sgwrs gryno a diddorol. Y ffaith ddiddorol nesaf a ddysgom oedd fod pererinion yn arfer cerdded heibio'r ffynnon ac yn cymysgu dŵr ffynnon Gybi a dŵr y môr ac yn ei yfed tra'n teithio er mwyn gwella gwahanol afiechydon. Ar ôl ychydig o amser i redeg a chawarae (y plant) ac eistedd yn yr haul (yr oedolion diog!) roedd yn amser i fynd nôl ar y bws ac i'r man diddorol nesaf sef Tŷ Canoloesol Penyberth.

Gweithgaredd gwaith llaw.

Roedd yn wych gallu bod yn y tŷ a dychmygu sut brofiad fyddai byw yn y tŷ. Ac er ei fod yn dŷ i bobl oedd yn weddol gyfforddus eu byd, roedd pob un ohonom yn falch nad oeddem yn byw yno ac yn gorfod cysgu ar y llawr caled. Y lle nesaf ar ein taith oedd Parc Glasfryn lle cafwyd amser i chwarae bowlio deg (y plant ac ambell oedolyn dewr) ac eistedd yn y caffi i gael paned a chacen (oedolion diog!).

Wedi'r chwarae roedd yn amser i droi'n ôl am Drefor ac i Gapel Maes y Neuadd am wasaneth a drefnwyd gan Llinos a Sian o Drefor a Mererid a Llinos o Noddfa. Thema'r gwasanaeth oedd ffynhonnau a dŵr. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom baned a bwyd blasus dros ben. Diolch i ffrindiau Trefor am eu croeso a'u cwmni yn ystod y dydd. Nid yw'r un trip yn gyflawn heb 'chips' ac yn ffodus i ni mae un o siopau chips gorau'r ardal ym Montnewydd. Yn fwy ffodus fyth mae byrddau picnic tu allan i'r siop a dyna ran olaf ein pererindod. Cawsom ddiwrnod gwych yn llawn amrywiaeth i bawb o bob oed. Ysgwn i lle cawn ni fynd flwyddyn nesaf?

Rhai o'r plant yn mwynhau hufen ia!

Dathliad yr Haf

Ers tair blynnedd bellach, rydym wedi gorffen y tymor yn Eglwys Noddfa gyda pharti go iawn, a doedd eleni ddim gwahanol. Daeth Caroline Roberts – tiwtor Celf Cofis Bach atom i arwain sesiwn gwaith llaw gyda'r plant ac roedd werth gweld y melinau gwynt y gwnaethant eu creu. Am 3 o'r gloch roedd yn amser i'r gwasanaeth. Roedd yn braf gweld criw da wedi dod i foli – yn oedolion a phlant. Gan mai tymor y plant yw cyfnod y gwyliau, thema'r gwasanaeth oedd plant y Beibl. Dysgom am Samuel a sut y gwrandawodd ar Dduw, am y ferch garedig wnaeth helpu Naaman a'r bachgen a ranodd ei fwyd er mwyn i Iesu allu cyflawni'r wyrth o fwydo'r pum mil.

Efallai y gallech feddwl mai dyna fyddai diwedd ein gweithgaredd, ond nid oes yr un gweithgaredd yn gyflawn yn Noddfa os nad oes bwyd i'w gael – nid ein bod ni'n farus cofiwch, ond am i ni gredu fod bwyta gyda'n gilydd yn ffordd wych o gymdeithasu a'n cryfhau fel eglwys. Gan mai diwrnod i'r plant oedd hi, pizzas a hufen iâ oedd ar y fwydlen. Roedd yn ffordd wych o orffen y tymor.

Cynllun Chwarae

Er na fydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn Noddfa dros yr Haf wrth i ni uno gyda Seilo a Salem, nid yw hynny'n golygu y bydd yn ddistaw yma, gan mai dyma un o gyfnodau prysuraf Llinos – ein gweithwraig blant a ieuenctid. Ar Orffennaf 27 dechreuodd y Cynllun Chwarae fydd yn rhedeg am 5 wythnos. Mae tri sesiwn y dydd – dau yn y bore i'r rhai dan 8 oed ac un yn y prynhawn i'r plant hynaf. Mae lle i 50 ym mhob sesiwn ac mae'r rhan fwyaf o'r diwrnodau yn llawn dop yma! Mae'n wir dweud fod gan Eglwys Noddfa brofiad helaeth o drefnu Cynlluniau Chwarae a cheir grantiau gan y Cyngor a mudiadau eraill i dalu staff llawn amser. Mae'r cynllun yn ateb anghenion yr ardal o sicrhau gweithgareddau hwyliog a chreadigol i'r plant. Diwrnod cyffrous bob wythnos yw Dydd Mercher sy'n cael ei drefnu gan Cofis Bach ac fydd yn trefnu gweithgareddau celfyddydol i'r plant. Gall gwyliau'r ysgol fod yn faith a diflas ar adegau, ond nid yn ardal Peblig, Caernarfon lle mae Llinos a'i thîm yn darparu gwledd o gyfleon a hwyl drwy'r Haf.

Mererid Mair,
Gweithwraig Gymunedol Eglwys Noddfa.